



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Meinir Ebbsworth
Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Ysgolion
Corporate Lead Officer : Schools

Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth. SY23 3UE
www.ceredigion.gov.uk

AT SYLW :
RHIENI / GOFALWYR DISGYBLION Y
CYFNOD SYLFAEN

Dyddiad Date	8 Chwefror, 2021
Gofynnwch am Please ask for	Mrs.Meinir Ebbsworth
Linell uniongyrchol Direct line	01545 570881
Fy nghyf My ref	ME/SAD
Ebost Email	Clic@ceredigion.gov.uk

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Ddydd Gwener, 5 Chwefror, 2021 cyhoeddodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams y bydd disgyblion y Cyfnod Sylfaen (dosbarthiadau Meithrin, Derbyn, blwyddyn 1 a 2) yn medru dechrau dychwelyd i'r ysgol yn raddol o'r 22 Chwefror, 2021 ymlaen. Rwy'n siŵr y bydd eich plant yn edrych ymlaen yn fawr at gael dychwelyd i drefn o gael gweld eu hathrawon a'u ffrindiau.

Mae llawer o ystyriaethau wrth ail agor ysgolion yn raddol a byddwn yn anelu at groesawu holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen nôl erbyn dydd Gwener, 26 Chwefror, 2021. Serch hyn, mae agor unrhyw ysgol mewn cyfnod o bandemig yn seiliedig ar asesiadau risg cytûn a fydd yn caniatáu i ysgolion fod mor ddiogel ag sy'n bosib i ddisgyblion ac i staff. Agor ysgol mewn dull diogel fydd ein prif nod. Mewn rhai achosion, efallai bydd hynny'n golygu dechrau ail agor ychydig yn hwyrach na'r disgwyl.

Agor yn ddiogel

Pan fydd ysgolion yn ail agor hoffwn grynhoi yr hyn fydd yn digwydd:

- bydd pob tacsï/bws sy'n cludo plant oed Cyfnod Sylfaen yn rhedeg yn ôl eu harfer
- bydd angen pecyn bwyd ar eich plentyn am yr wythnos sy'n cychwyn 22 Chwefror, 2021 a bydd pob cegin ysgol yn darparu bwyd o'r 1 Mawrth, 2021 ymlaen
- bydd nifer o fesurau rheoli haint ar waith yn yr ysgol sy'n cynnwys
 - cymryd tymheredd disgyblion ar fynediad i'r ysgol
 - glanhau cyson gydol y dydd
 - golchi dwylo cyson a glanweithdra da
 - awyru da a defnydd o'r awyr agored ar gyfer dysgu pan yn bwrpasol
 - staff yn gwisgo gorchudd wyneb
 - profi staff ysgolion gyda *Lateral Flow Test* ddwywaith yr wythnos

Cau'r ddarpariaeth i'r dosbarth ar fyr rybudd

Ar brydiau, mae posibilrwydd y bydd canlyniadau *Lateral Flow Test* rhai aelodau staff yn bositif ac felly bydd rhaid cau'r ddarpariaeth i'r dosbarth. Mae'n bosib mai ychydig o rybudd fydd yn medru cael ei roi ichi, ond mae'n hanfodol cau'r dosbarth i ddiogelu rhag lledu unrhyw haint ymhellach.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.

Prif Weithredwr / Chief Executive :
Cyfarwyddwyr Corfforaethol / Corporate Directors :

Eifion Evans
Barry Rees MBE
Caroline Lewis

Bydd rhaid hefyd cau dosbarthiadau yn syth os oes unrhyw blentyn sydd wedi bod mewn cyswllt â'r dosbarth yn cael prawf positif.

Golchi dwylo

Bydd trefniadau golchi dwylo cyson yn hanfodol a holwn yn garedig ichi ymarfer trefniadau golchi dwylo gyda'ch plant yn y cartref cyn iddynt ddychwelyd i'r ysgol. Bydd ymarfer golchi dwylo'n ofalus yn hwyluso trefniadau golchi dwylo cyson yr ysgol.

Lleihau cysylltiadau

Rydyn ni'n ymwybodol bod rhai o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn mynychu mwy nag un lleoliad e.e Cylch Meithrin ac ysgol, neu ofal plant preifat ac ysgol. Cyngor y Llywodraeth yw y dylai disgyblion yn ddelfrydol aros yn yr un grŵp cyswllt drwy'r amser, ac y dylid lleihau cymaint ag sy'n bosib o gysylltiadau. Os ydy eich plentyn yn gorfod defnyddio gofal plant arall tra hefyd yn mynychu'r ysgol, mae'n hanfodol bod yr ysgol yn ymwybodol o ble mae'ch plentyn yn mynychu ac ar ba ddiwrnodau. Bydd hyn yn gwneud trefniadau olrhain a phrofi llawer yn haws pe cyfyd achos i wneud hynny.

Trefniadau dod a chasglu plant

Bydd angen i drefniadau dod a chasglu plant o'r ysgol ddigwydd mor ddiogel ag sy'n bosib ac felly bydd angen i oedolion sy'n dod a chasglu'ch plentyn wisgo mwgwd ar bob adeg a gofalu eu bod yn ymbellhau'n gymdeithasol oddi wrth eraill.

Cyfyngiadau clo

Fel gwlad, rydym yn parhau mewn cyfnod clo ac felly mae'n hanfodol nad ydy plant a'u teuluoedd yn cymdeithasu gan fod rhai disgyblion yn cael dychwelyd i'r ysgol. Mae'r Llywodraeth yn nodi'n glir na ddylai plant fynd i dai ei gilydd i chwarae na chwrdd mewn mannau cyhoeddus.

Croeso nôl

Bydd pob ysgol yn falch iawn o fedru croesawu eich plentyn nôl i amgylchedd a fydd yn canolbwyntio ar ddatblygu eu lles a'u sgiliau wedi cyfnod o fod i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth. Rydym yn hynod ddiolchgar ichi fel rhieni am y rôl allweddol yr ydych chi wedi'i gymryd wrth gynorthwyo addysg eich plant. Mae'ch cyfraniad wedi bod yn hynod bwysig i ddatblygiad eich plant.

Bydd Pennaeth eich ysgol yn cysylltu gyda chi maes o law i nodi trefniadau'r ysgol. Diolchwn yn fawr i ysgolion am eu gofal wrth greu trefniadau sydd er lles a diogelwch pawb.

Yn gywir,

MEbbsworth

Meinir Ebbsworth
Prif Swyddog Addysg
Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Ysgolion a Diwylliant